Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 27.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Dod â rheoliadau coronafeirws i ben yng Nghymru

Yn dilyn canlyniad yr adolygiad tair wythnos o'r rheoliadau coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cyfyngiadau coronafeirws cyfreithiol olaf yn dod i ben ar ddydd Llun, 30 Mai 2022. Ni fydd bellach yn ofyniad cyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb mewn lleoliadau iechyd a gofal ond argymhellir yn gryf y dylid gwneud hynny, er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed a'r staff sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-8

# HYFFORDDIANT: Cynllun Llysgennad Gwynedd

Lansiwyd Cynllun Llysgennad Gwynedd er mwyn pwysleisio’r pwysigrwydd o ddysgu a deall am dreftadaeth, cynefinoedd a hanes Gwynedd. Anogir gweithwyr sy’n dod i gysylltiad ag ymwelwyr yn rheolaidd i ddod yn Llysgenhadon Gwynedd i wella gwasanaeth a phrofiad cwsmer busnesau. Am fwy o wybodaeth, ac i ddod yn Llysgennad Gwynedd, ewch i:

https://www.ambassador.wales/cy/ambassador-courses/gwynedd-ambassador-course/

# RECRIWTIO: Gwaith Gwynedd – Hysbysfwrdd Swyddi

Os oes gennych unrhyw swyddi i’w llenwi, yna mae gan menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, ‘Hysbysfwrdd swyddi gwag yng Ngwynedd’ ar Facebook i helpu cysylltu cyflogwyr gyda’r rhai sy’n chwilio am waith. Os ydych yn dymuno hyrwyddo unrhyw swyddi gwag, ewch i:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265/

# AROLWG: Ardal Ni 2035 – a ydych wedi rhoi eich barn am eich ardal leol?

Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar drigolion y sir i lenwi holiadur ‘Ardal Ni 2035’ i leisio eu barn a helpu gwneud eu hardal yn lle hyd yn oed gwell i fyw ynddo fo erbyn 2035. Bydd yr holl ymatebion yn siapio’r gwaith o flaenoriaethu a datblygu 13 cynllun adfywio lleol ar gyfer cymunedau Gwynedd dros y 15 mlynedd nesaf. I gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein, ewch i:

https://dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru/

Mae gwybodaeth am y ffyrdd eraill o gymryd rhan, a'r arolwg, ar gael ar:

https://bit.ly/DatganiadGwyneddArdalNi2035

# DYSGU: Cyrsiau am ddim – MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu)

Prosiect dysgu seiliedig ar waith yw MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu), sy'n canolbwyntio ar fodiwlau hyfforddiant technegol i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant i ffynnu mewn sector sy'n cael ei arwain gan wybodaeth. Maent yn gallu cynnig hyfforddiant cwbl achrededig yn rhad ac am ddim, gyda holl fodiwlau ar-lein ar gael i'w cofrestru yn syth. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.project-metal.co.uk/cy/cyrsiau

# TRETH: Dosbarthu llety hunan ddarpar at ddibenion treth lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau y newidiadau i ddosbarthu llety hunan ddarpar at ddibenion treth lleol o 1 Ebrill 2022. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dosbarthu-llety-hunanddarpar-ddibenion-treth-leol

# DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau ar-lein FSB – Mehefin

Mae gan y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) nifer o ddigwyddiadau ar-lein ym mis Mehefin sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cynwysoldeb, amrywiaeth, gwneud eich

busnes yn fwy hygyrch a defnyddio delweddau ar-lein. Gellir cael manylion ar Galendr Digwyddiadau yr FSB, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar.html

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru